Hysbysiad yn dirymu trwydded gyffredinol i drefnu ffair, marchnad, sioe, arddangosfa neu ddigwyddiad arall sy'n cynnwys casglu dofednod ynghyd yng Nghymru

Yn ddilys o: Hanner dydd ar 25 Tachwedd 2026

EXD 178(AI)
Llywodraeth Cymru
Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn a Gymathwyd (UE) 2018/1136
Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006

1) Yn unol â rheoliad 3(1) o Reoliadau Ffliw Adar (Mesurau Ataliol) (Cymru) 2006 (fel y'i diwygiwyd) ac Erthygl 4(4)(e) o Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn a Gymathwyd (UE) 2018/1136, mae Gweinidog y Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd drwy hyn yn dirymu trwydded gyffredinol EXD 178(AI) i drefnu ffair, marchnad, sioe, arddangosfa neu ddigwyddiad arall sy'n cynnwys casglu dofednod ynghyd yng Nghymru', a ddaeth i rym am 00:01 ar 23 Mehefin 2026.

2) Mae'r dirymiad hwn yn dod i rym o hanner dydd ar 25 Tachwedd 2026

Llofnodwyd gan Natalie Sampson, Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol Cymru

Dros ac ar ran y Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd, un o Weinidogion Cymru

Am 15:00 ar 24 Tachwedd 2026